



# DATGANIAD SIAPIO'R FARCHNAD CARTREFI GOFAL I BOBL HŶN YNG NGOGLEDD CYMRU

2018



## Cynnwys

Crynodeb Allweddol .....	3
Ein Cenhadaeth, ein Hegwyddorion a'n Hamcanion .....	4
Ein Cenhadaeth .....	4
Ein Hegwyddorion .....	4
Ein Hamcanion Strategol ar gyfer Cartrefi Gofal yng Ngogledd Cymru .....	4
Cyd-destun Comisiynu .....	5
Cynaliadwyedd y Farchnad .....	6
Ystyriaethau o ran y Gweithlu .....	6
Proffil Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn yng Ngogledd Cymru .....	7
Lefelau Lleodedd Gwag Cartrefi Gofal yng Ngogledd Cymru .....	7
Barn o'r Ymgysylltiad â Chartrefi Gofal yng Ngogledd Cymru .....	8
Gofynion ar gyfer Datblygiad Pellach yng Ngogledd Cymru .....	9
Cysylltiadau Lleol .....	9
Rhaglen Ddatblygu Arfaethedig .....	10
Gwybodaeth Ategol .....	10

**Am fwy o wybodaeth am ddadansoddiad y farchnad a neu / ymrwymadau siapio'r farchnad, cysylltwch â:**

Maria Bell, Rheolwr Busnes Rhanbarthol (Comisiynu): [maria.bell@sir ddinbych.gov.uk](mailto:maria.bell@sir ddinbych.gov.uk)

## BETH SY'N DIGWYDD RŴAN

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn bwriadu darparu rhaglen o newid system gyfan (iechyd a gofal cymdeithasol) yng Ngogledd Cymru.

Bydd hyn yn cyfrannu at ein bwriad o:

- ✓ Ddarparu cymorth amlddisgyblaethol dwys yn agosach at adref.
- ✓ Rheoli'r galw am leoliadau cartref gofal a gyllidir yn statudol ar lefelau presennol dros y 10 – 15 mlynedd nesaf (er y cynnydd demograffig).

## BETH A DDISGWYLIR YN Y DYFODOL

Disgwylir y bydd hyn yn arwain at:

- Ostyngiad yn y lefel cyfartalog o amser (mwy na 2 flynedd ar hyn o bryd) y mae pobl hŷn yn byw mewn cartrefi gofal, gan mai dim ond pan na fydd gwasanaethau cymunedol (iechyd, tai, a chymorth gofal cymdeithasol) yn gallu bodloni eu hanghenion bellach y bydd pobl yn symud i mewn i gartrefi gofal.
- Cynnydd yng nghymhlethdodau anghenion pobl hŷn o fewn cartrefi gofal (rydym yn ystyried cefnogi pobl gyda dementia i fod yn elfen graidd o wasanaethau cartref gofal, yn hytrach nac yn arbenigaeth).
- Cynnydd yn y galw am leoliadau nyrsio o fewn 3 - 5 mlynedd, yn arbennig o ran cefnogi pobl gyda chyflyrau iechyd meddwl a / neu ddementia.
- Gostyngiad mewn lleoliadau gofal preswyl anghenion cyffredinol, oherwydd bod mwy o dai gofal ychwanegol ar gael, a mwy o ofal a chymorth i fyw gartref (os taw hyn yw dewis yr unigolyn).
- Cynnydd sylweddol yn y gofal diwedd bywyd o fewn cartrefi gofal
- Angen am arloesedd gwasanaeth a modelau newydd o ofal o fewn cartrefi gofal, gan gynnwys gwasanaethau camu i fyny / camu i lawr a gwasanaethau 'rhyddhau i asesu' (lleihau'r nifer o bobl sy'n mynd i'r ysbyty yn ddiangen, ac osgoi penderfyniadau gofal hirdymor tra bo pobl yn yr ysbyty).
- Potensial ar gyfer nifer uwch o leoedd gwag mewn cartrefi gofal.

## BETH RYDYM EI ANGEN GAN GARTREFI GOFAL – A SUT BYDDWN YN CEFNOGI DATBLYGIAD

Fel rhan o ymgysylltu â dinasyddion wrth ddatblygu'r Asesiad o Anghenion Poblogaeth, gofynnwyd pa bryderon oedd gan bobl o safbwynt cynnal eu lles a'u ffordd o fyw wrth iddynt heneiddio.

- Y pryder mwyaf oedd cadw annibyniaeth, a gweithgareddau cymdeithasol a hamdden (i leihau unigedd), ac yn benodol parhau i fod yn gymdeithasol a chymryd rhan yn y gymuned.
- Roedd pryder cyffredin arall yn ymwneud â dewis o wasanaethau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.
- Roedd ansawdd gofal yn amlwg iawn mewn ymatebion ac roedd cael gofal gan rywun sy'n siarad eich iaith yn bwysig iawn i bobl gyda dementia. *Rhaid i gartrefi gofal (fel gwasanaethau eraill yng Nghymru) fodloni anghenion ieithyddol y boblogaeth, yn arbennig felly o ran darparu cynnig gweithredol o wybodaeth, gofal, a chymorth yn yr iaith Gymraeg.*

Bydd angen y canlynol er mwyn cyflawni ein cenhadaeth a'n dyheadau:

- ✓ Buddsoddiad yn natblygiad sgiliau'r gweithlu, gan gynnwys lleoliadau hyfforddi ychwanegol a hyfforddiant ôl gymhwys o niysys
- ✓ Adolygiad o fethodolegau ffioedd i sicrhau bod cartrefi gofal yn gallu cynnig amodau cyflogaeth sy'n atynnu ac yn cadw gweithlu crefftus a chymwys

### Ein Cenhadaeth

#### Mae'n cenhadaeth yn syml:

#### Helpu i wella iechyd a lles pobl ar draws Gogledd Cymru.

Ond er bod ein cenhadaeth yn syml, mae'r llwybr at lwyddiant yn gymhleth ac yn heriol. Felly mae cydweithio'n bwysig iawn.

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarth Gogledd Cymru yn dwyn ynghyd sefydliadau gwasanaethau iechyd a chymdeithasol statudol a darparwyr sector annibynnol, cynrychiolwyr dinasyddion a gofalwyr.

Dyma beth rydym yn ceisio ei wneud:

- ✓ Symud gwasanaethau at fodol ataliol sy'n hyrwyddo iechyd a lles da. Mae hyn yn cynnwys cymorth mwy hyblyg i ofalwyr (teulu) – cynnig Gogledd Cymru i ofalwyr.
- ✓ Darparu gwasanaethau cydgysylltiedig o amgylch anghenion, dewisiadau ac asedau cymdeithasol pobl.
- ✓ Sicrhau bod pobl a chymunedau'n cyfranogi wrth ffurfio gwasanaethau lleol.
- ✓ Helpu pobl i ddefnyddio eu sgiliau a'u hyder i fyw'n annibynnol, wedi'i ategu gan wasanaethau a chyfleusterau o ansawdd uchel yn y gymuned.
- ✓ Cydnabod a deall yr ystod eang o ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd a lles, yn cynnwys addysg, tai, lles, digartrefedd, twf economaidd, adfywio, hamdden a'r amgylchedd.

### Ein Hegwyddorion

#### Mae'r egwyddorion canlynol yn sail i'n cenhadaeth a'n hamcanion:

- Mae beth sy'n bwysig i unigolion wrth galon yr hyn rydym ni gyd yn ei wneud
- Rydym yn cynnig gofal di-dor, yn agos at gartref.<sup>1</sup>
- Amrywiaeth / dewis o opsiynau gofal a chymorth hyblyg er mwyn gwella asedau pobl eu hunain a beth sydd ar gael yn gyffredinol o fewn cymunedau.
- Rydym yn edrych ar ôl y gweithwyr sy'n edrych ar ôl y bobl.
- Darperir gwasanaethau iaith Gymraeg – heb orfod gofyn.
- Mae rhwydweithiau cymdeithasol yn bwysig.
- Rydym yn ffrwyno datblygiadau digidol a thechnolegol fel sail i fodolau o ofal wedi eu moderneiddio a datgloi arbedion effeithlonrwydd.

### Ein Hamcanion Strategol ar gyfer Cartrefi Gofal yng Ngogledd Cymru

#### Byddwn yn gweithio gyda chartrefi gofal er mwyn:

- ✓ Adnabod yr amrywiaeth o amgylchiadau lle galledd helpu pobl i aros yn ddiogel gartref – sef canolbwynt gweithgarwch comisiynu gofal cartref yn y dyfodol.
- ✓ Cadarnhau modelau gwasanaeth yn y meysydd lle byddem yn hyrwyddo datblygiad newydd a sut gallem gefnogi neu gymell hyn.
- ✓ Gwneud y mwyaf o gyfleoedd am fuddsoddi cyfalaf mewn cartrefi gofal ar draws Gogledd Cymru, gan gynnwys cefnogi gwasanaethau bach (busnesau lleol a redir gan deuluoedd yn aml) i aros yn gynaliadwy, a allai gynnwys symud i eiddo newydd.
- ✓ Monitro'r nifer o bobl y mae eu hanghenion ieithyddol yn cael eu bodloni / ddim yn cael eu bodloni mewn cartrefi gofal a'r nifer o staff sy'n siarad Cymraeg yn y cartrefi gofal. *Mae ein strategaeth sgiliau dwyieithog yn elfen allweddol o'n Rhaglen ar gyfer y Gweithlu.*
- ✓ Gwella gofal iechyd pobl hyn sy'n byw mewn cartrefi gofal.

<sup>1</sup> Rydym yn gweithio tuag at y chwyldro y galwyd amdano yn yr Adolygiad Seneddol o Ofal Iechyd a Chymdeithasol yng Nghymru

## MAE RHAGWELD GALW YN GYMHELETH AC YN DIBYNNU AR NIFER O FFACTORAU

Erbyn 2030 byddwn yn gweld cynnydd sylweddol ar draws Cymru yn y boblogaeth yr ydym yn eu hystyried fwyaf tebygol o symud i mewn i gartref gofal (pobl sydd yn 85 oed ac yn hŷn ac yn byw ar eu pennau eu hunain a phobl sy'n 65 oed ac yn hŷn ac yn byw gyda dementia).

Yn ogystal â ffactorau demograffig (oedran a phroffil anghenion ar gyfer y boblogaeth), mae'n bosib y bydd galw am leoliadau cartref gofal yn y dyfodol yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys:

- Argaeledd gwasanaethau sy'n darparu gofal a chymorth yn y cartref; mae'r sector gofal cartref yn arbennig o fregus, gyda heriau ariannol a gweithlu sylweddol. Bydd y cynnydd a ragwelir mewn nifer o bobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth hefyd yn rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau iechyd sylfaenol a chymunedol.
- Buddsoddi mewn opsiynau tai / llety eraill fel llety gofal ychwanegol a thai gwarchod â chymorth. Mae amrywiaeth o fodelau ar gyfer rhagweld galw:
  - Ym mis Mai 2016, roedd bron i 3.3% o boblogaeth Gogledd Cymru oedd yn 65 oed ac yn hŷn, yn byw mewn cartref gofal. O ragdybio bod y nifer yma o achosion yn parhau ac yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer y dyfodol, byddem yn disgwyl y bydd hyn yn golygu y bydd angen 7,619 o leoliadau cartref gofal erbyn 2030.
  - Mae'r Adnodd Dadansoddi Strategaeth Dai ar gyfer Pobl Hŷn (SHOP@) a ddatblygwyd gan y Rhwydwaith Gwybodaeth a Dysgu Tai a Chyngor Llety Pobl Hŷn yn defnyddio cyfres o setiau data sydd ar gael yn genedlaethol er mwyn adolygu'r angen posib yn erbyn cyflenwad gwasanaeth lleol cyfredol. Mae'r fethodoleg yn awgrymu y bydd angen 400 o leoedd cartref gofal preswyl ychwanegol ar Ogledd Cymru erbyn 2030, yn ogystal â 2,220 o leoedd gofal nyrsio.

Yng Ngogledd Cymru, rydym wedi datblygu methodoleg yn seiliedig ar risg er mwyn nodi'r trothwyon sy'n aml yn arwain at ganlyniadau lles gwael ac ymyraethau yn seiliedig ar dystiolaeth er mwyn atal dibyniaeth ar wasanaethau cymorth a gofal a reolir (fel cartrefi gofal).

Canfuwyd bod gan y rhan fwyaf o bobl sy'n derbyn gofal a chymorth (un ai gartref neu mewn cartref gofal) 2 gyflwr cymhleth neu fwy fel dementia, Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint, clefyd y galon a strôc a phroblemau ymataliaeth. Roedd pobl hŷn oedd â rhwydwaith gymdeithasol a theuluol o gymorth yn fwy tebygol o allu parhau i fyw gartref, tra roedd pobl oedd yn byw ar eu pennau eu hunain neu lle nad oedd eu teulu / gofaluwr yn gallu parhau i ddarparu gofal a chymorth di-dâl yn fwy tebygol o symud i gartref gofal.

Tra bo sail tystiolaeth gadarn i fuddsoddi mewn ymyraethau cynnar sy'n atal anghenion yn y tymor canolig a'r hir dymor ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth, mae comisiynwyr hefyd yn ymwybodol o'r pwysau ar gyllid i gwrdd y galw presennol am wasanaethau gofal a chymorth.

Bydd gan lechyd Cyhoeddus Cymru a gwasanaethau iechyd ar draws Cymru rôl allweddol i'w chwarae o ran hyrwyddo newid ymddygiad er mwyn osgoi neu arafu'r nifer o achosion o gyflyrau cronig fel clefyd y galon, diabetes, strôc a chlefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint. Fodd bynnag, mae'n bosib na fydd yn bosib cyfrifo neu ragweld a fydd ymyraethau o'r fath yn gostwng y galw a ragwelir ar gyfer cartrefi gofal yn y dyfodol.

Tra bo aros yn ein 'cartrefi ein hunain' yn ddyhead i lawer, bydd argaeledd gweithlu, fforddiadwyedd pecynnau gofal cartref mawr ( i fodloni anghenion cymhleth) a chyllid cyfalaf ar gyfer addasu tai, offer a thechnoleg gynorthwyol yn ffactorau cyfyngol.

Ni ddisgwylir y bydd cyllid gan y Llywodraeth Ganolog ar gael i dalu am y cynnydd mewn galw am wasanaethau gofal a chymorth, ac felly bydd angen dulliau gweithredu newydd gyda disgwyliad uwch ar bob gwasanaeth i arddangos cymhwysedd mewn ail alluogi a gwneud y mwyaf o annibyniaeth.

## MAE SAFONAU ANSAWDD A DIOGELWCH YN GYD GYFRIFOLDEB, WEDI EU DYLANWADU GAN ARWEINYDDIAETH GWASANAETH, MENTRAU DATBLYGU'R GWEITHLU, FFI OEDD A PHROSES AU LLYWODRAETHU

Mae adolygiadau ansawdd a diogelwch cyffredinol mewn cartrefi gofal ar draws Gogledd Cymru yn awgrymu bod:

- Peth arferion arbennig o dda sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn seiliedig ar dystiolaeth; fodd bynnag, Bydd angen gwelliannau mewn rheolaeth ac arweinyddiaeth, gan gynnwys arweinyddiaeth glinigol a mynediad at wybodaeth a chymorth er mwyn darparu'r safonau angenrheidiol o ran ansawdd a diogelwch mewn rhai cartrefi.
- Nid yw safonau amgylcheddol (adeiladau) rhai o'r cartrefi yn addas ar gyfer y dyfodol. *Rydym am weithio gyda darparwyr i gadarnhau safonau ansawdd a diogelwch yr ydym yn bwriadu eu comisiynu ac archwilio sut byddai hyn yn effeithio eu cynlluniau busnes gyda nhw.*
- Efallai y bydd angen gwaith pellach ar ddeall cysylltiadau rhwng lefelau o angen (cymhlethdod / aciwtedd, gan gynnwys nifer o bobl sy'n bodloni meini prawf cyllido GIP) ac achosion o 'bryderon cynyddol'. *Bydd lefelau staffio a chymhwysedd hefyd yn cael eu hystyried o fewn methodolegau ffioedd.*

### **Beth fyddwn ni yn ei wneud:**

- ✓ ***Rydym yn datblygu fframweithiau sicrhau ansawdd sy'n gysylltiedig â manyleb gwasanaethau a methodolegau ffioedd er mwyn sicrhau darpariaeth gwasanaeth diogel o safon uchel o fewn y sector cartrefi gofal.***
- ✓ ***Cyhoeddi gweithdrefn rheoli ansawdd ar gyfer gwasanaethau a gomisiynwyd (sy'n cynnwys gweithdrefnau pryderon cynyddol).***
- ✓ ***Mynd i'r afael â gwelliannau angenrheidiol o ran safonau ansawdd a diogelwch yn ogystal â gwasanaethau, darparu cymorth i gyflawni cynlluniau gweithredu (rheoleiddiol, cytundebol ac / neu ddiogelu).***

### **Cynaliadwyedd y Farchnad**

## MAE COMISIYNWYR GOGLEDD CYMRU EISIAU SICRHAU CYNALIADWYEDD Y DDARPARIAETH AR GYFER Y DYFODOL: GALLAI DIFFYG GWEITHLU A NIFER UCHEL O LEOEDD GWAG MEWN CARTREFI GOFAL GAEL EFFAITH AR HYN

### **Ystyriaethau o ran y Gweithlu**

Bydd y newidiadau demograffig a ragwelir yng Ngogledd Cymru hefyd yn cael effaith sylweddol ar y galw ac ar argaeledd y gweithlu (bydd y nifer o bobl o fewn y grŵp oedran sy'n cynrychioli'r rhan fwyaf o'r gweithlu yn gostwng dros amser, mae'r gweithlu hefyd yn grŵp demograffig sy'n heneiddio)

Tra bo peth tystiolaeth o ddiffyg o ran gweithwyr gofal a chymorth mewn cartrefi gofal, mae casgliad data Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer 2016 yn dweud bod staff nyrsio yn cyfrif am 7% o bob swydd wag gofal a gomisiynir yng Nghymru – roedd hyn yn amrywio o 0% mewn darparwyr gofal a gomisiynwyd gan Gonwy i 18% a gomisiynwyd gan Ynys Môn (er y dylid nodi bod hyn yn ostyngiad cyffredinol dros Gymru o 10% o'r holl swyddi gwag yn 2015).

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn manylu bod 26% o'r staff nyrsio cofrestredig mewn swyddi ar ddechrau'r flwyddyn wedi gadael darparwyr gofal a gomisiynir yng Nghymru yn ystod 2016. Bydd diffyg staff nyrsio o fewn y GIG yn parhau i gael effaith ar recriwtio a chadw staff. Fodd bynnag, yn aml bydd cartrefi gofal yn elwa o recriwtio staff gofal a chymorth cymwys a phrofiadol o'r sector gofal cartref.

### **Beth fyddwn ni yn ei wneud:**

- ✓ ***Bydd ein [Rhaflen Datblygu'r Gweithlu](#) yn cefnogi gwasanaethau a gomisiynir.***

## Proffil Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn yng Ngogledd Cymru

Datblygodd Gogledd Cymru gyfrifiad lleoedd cartrefi gofal a'i dreialu ar ran y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol ym mis Mai 2016, a chasglwyd gwybodaeth gan awdurdodau comisiynu a chartrefi gofal.

Darparodd yr arolwg ddata am 90% o'r lleoedd oedd ar gael mewn cartrefi gofal yng Ngogledd Cymru gan nodi bod dros 200 o gartrefi gofal (gan gynnwys mwy na 70 cartref gofal gyda nyrsio a 24 o gartrefi preswyl awdurdod lleol) wedi cofrestru i gynorthwyo pobl hŷn yng Ngogledd Cymru ac yn darparu mwy na 6000 o leodd:

	Preswyl	Preswyl Henoed Bregus eu Meddwl (EMI)	Nyrsio Cyffredinol	Nyrsio EMI	Cyfanswm	# lleoedd Preswyl / 100 o bobl	# lleoedd Nyrsio / 100 o bobl	Cyfanswm # o leodd i bob 100 o bobl
<b>Ynys Môn</b>	344	90	124	56	614	2.5	1	3.5
<b>Gwynedd</b>	425	116	408	138	1087	2	2	4
<b>Conwy</b>	516	214	375	143	1248	2.4	1.9	4.25
<b>Sir Ddinbych</b>	576	208	171	149	1104	3.5	1.5	5
<b>Sir y Fflint</b>	309	227	233	44	813	1.7	0.9	2.6
<b>Wrecsam</b>	466	339	244	133	1222	3	1.4	4.7
<b>Gogledd Cymru</b>	<b>2636</b>	<b>1194</b>	<b>1555</b>	<b>663</b>	<b>6048</b>	<b>2.5</b>	<b>1.5</b>	<b>4</b>

Gwariodd comisiynwyr Gogledd Cymru oddeutu £93 miliwn ar leoliadau cartrefi gofal yn 2016/7.

Roedd y cyfrifiad yn darparu'r wybodaeth ganlynol am leoliadau o fewn cartrefi gofal:

Lleoliadau yn ol categori gofal								
	Rhifau							
	Preswyl	Preswyl Henoed Bregus eu Meddwl (EMI)	Nyrsio Cyffredinol	Nyrsio EMI	Cyfanswm	Hunain-arianwr (gan gynnwys 302 lleoliad FNC)	Lleoliadau fesul ALI / BIL tu allan i Ogledd Cymru	Cyfanswm
<b>Ynys Môn</b>	165	58	33	25	281	160	10	451
<b>Gwynedd</b>	290	68	112	51	521	268	35	824
<b>Conwy</b>	344	41	113	40	538	303	28	869
<b>Sir Ddinbych</b>	177	95	50	29	351	258	17	626
<b>Sir y Fflint</b>	203	149	57	35	444	193	22	659
<b>Wrecsam</b>	242	180	40	35	497	208	16	721
<b>Betsi Cadwaladr</b>	2	1	755	442	1200		55	1255
<b>Gogledd Cymru</b>	<b>1423</b>	<b>592</b>	<b>1160</b>	<b>657</b>	<b>3832</b>	<b>1390</b>	<b>183</b>	<b>5405</b>

**Ffynhonnell: Cyfrifiad Lleoliadau Cartref Gofal Mai 2016**

## Lefelau Lleoedd Gwag Cartrefi Gofal yng Ngogledd Cymru

Yn ein cyfrifiad marchnad a gynhaliwyd ym mis Mai 2016, roedd lleoedd gwag yn o leiaf 115 o'r cartrefi gofal. Roedd 430 o leoedd gwag (71 ohonynt mewn cartrefi gofal awdurdod lleol) gyda thua hanner y lleoedd gwag mewn cartrefi oedd yn darparu gofal preswyl. Dywedodd 20 cartref bod dros 20% o'u lleoedd cofrestredig yn wag.

Mae'n bosib fod nifer o resymau dros rai o'r lleoedd gwag, gan gynnwys cartrefi gyda:

- Ystafelloedd a rennir, lle mae'r ail 'wely' yn wag yn dechnegol ond ddim yn cael ei ddefnyddio.
- Embargos / derbyniadau wedi eu rheoli oherwydd pryderon ansawdd (6 cartref nyrsio a 3 cartref preswyl ar ddyddiad y cyfrifiad).
- Ailwampio parhaol, ystafelloedd yn cael eu 'cadw' gan bobl ar y rhestr aros; neu ystafelloedd yn cael eu 'cadw' gan bobl sydd yn yr ysbyty yn cael eu paratoi i gael eu rhyddhau. Mae'n bosib bod rhai cartrefi awdurdodau lleol wedi peidio derbyn pobl oherwydd ymgynghori parhaol am ddyfodol y cartref.

**Beth fyddwn ni yn ei wneud:**

- ✓ ***Datblygu ein prosesau ar gyfer asesu risgiau 'marchnad' ar lefel lleol a rhanbarthol, gan gynnwys gweithio gyda ddarparwyr cartrefi gofal i ddeall effaith Rheoliad ac Archwiliad rheoliadau Deddf Gofal Cymdeithasol (Cymru) o safbwynt ystafelloedd a rennir a safonau amgylcheddol ar gyfer datblygiadau newydd.***

**Barn o'r Ymgysylltiad â Chartrefi Gofal yng Ngogledd Cymru**

#### **PWYNTIAU ALLWEDDOL O YMGYSYLLTU Â CHARTREFI GOFAL (HYDREF 2016)**

- Dangosodd Adolygiad Perfformiad Masnachol Cartrefi Gofal Frank Knight 2016 mai Cymru oedd y rhanbarth isaf o ran proffidioldeb ar dir mawr y DU (ar y cyd â Gogledd Ddwyrain Lloegr).
- Bydd y polisi o gynyddu'r trothwy lle mae'n rhaid i bobl gyfrannu tuag at eu gofal eu hunain (ac felly'n dod yn lleoedd a gyllidir o'u cymharu â lleoedd hunan-gyllido / preifat) yn sicrhau bod y nifer o becynnau a gyllidir yn gyhoeddus fel canran o becynnau preifat yn cynyddu. Bydd hyn yn lleihau faint o ffioedd fydd cartrefi gofal yn eu derbyn ac mae'n bosib y bydd yn cael effaith ar gynaliadwyedd.
- Mae cartrefi gofal yn cael eu gor-reoleiddio, gyda dulliau rhannu gwybodaeth gwael rhwng cyrff statudol.
- Gall y pwysau i ryddhau pobl o ysbytai arwain at ryddhau pobl pan nad yw'n ddiogel gwneud hynny.
- Mae methu recriwtio a chadw nyrsys cofrestredig yn effeithio ar gynaliadwyedd ac ansawdd.
- Nid yw banciau yn fodlon benthycu arian i gartrefi gyda llai na 35 lle, gan nad ydynt yn cael eu hystyried yn rhai sy'n hyfyw yn fasnachol.
- Dylid disgwyl gostyngiad yng nghapasiti cartrefi gofal oherwydd y nifer uchel o berchnogion cartrefi gofal annibynnol llai o faint sy'n cyrraedd oedran ymddeol yng Ngogledd Cymru; methu atynnu prynwyr oherwydd polisi benthycu'r banciau (uchod) felly bydd safleoedd yn cael eu gwerthu i ddatblygwyr at ddefnydd amgen.
- Nid yw cael ffi safonol 'cyfartalog' yn seiliedig ar ragdybiaethau o gartrefi gyda mwy na 30 o welyau yn ystyried cartrefi llai – nid yw'r un datrysiaid yn addas i bawb.

**Gofynnem 'beth allai fod o gymorth i ddarparwyr cartrefi gofal'?**

**Ymatebwyd fel a ganlyn:**

- ✓ ***Cynorthwyo ddarparwyr gyda cheisiadau cynllunio ar sail y bylchau cyfredol yn y ddarpariaeth, y galw ac anghenion y sir o ran lleoedd ychwanegol. Cynorthwyo ddarparwyr i ddefnyddio unrhyw dir dros ben i ddatblygu neu wella gwasanaethau mewn unrhyw ffordd angenrheidiol. Bydd adeiladu estyniadau i gartrefi gofal presennol yn cynyddu capasiti a gallai leihau costau gweinyddu, ac felly byddai'n gwella cynaliadwyedd a hyfywedd y cartrefi.***
- ✓ ***Atal mentrau newydd sefydliadau cyfalafol rhag adeiladu neu gymryd adeiladau drosodd a ddefnyddir fel cartrefi nyrsio (gallai gynyddu prisiau, creu monopoli, gyrru ddarparwyr bach yn fethdalwyr).***
- ✓ ***Adolygu gwir gost (llawn) cartrefi cyngor a chost gofal yn y cartref o safbwynt cymariaethau gwerth am arian. Datblygu gweithdrefn ymateb frys i ymateb i'r newidiadau yn y gost o redeg cartrefi neu pan fydd ddarparwyr yn nodi problemau ariannol.***



## Gofynion ar gyfer Datblygiad Pellach yng Ngogledd Cymru

Bydd angen cynyddu buddsoddiad mewn gofal iechyd a chymdeithasol integredig a chymorth i bobl yn eu cartrefi eu hunain; bydd hyn yn cynnwys datblygu mynediad at wasanaethau cymunedol sy'n hyrwyddo lles, ymyrryd yn gynnar pan fydd lles yn cael ei fygwth ac atal lle bo'n bosib, neu arafu mynediad at ofal a chymorth a reolir (gan gynnwys gofal cartref a gofal hirdymor o fewn cartrefi gofal).

Tra bydd yr ymyriadau hyn o bosib yn *atal* yr angen i *rai pobl* orfod symud i mewn i gartref gofal, mae'n debyg mai dim ond *oedi'r* symud a wnaiff i lawer. Cydnabyddir bod hyn yn golygu arhosiad byrrach mewn cartref gofal. Bydd y lefelau uwch canlynol o anghenion cymhleth (aciwtedd) ymysg y boblogaeth sy'n byw mewn cartrefi gofal yn golygu y bydd angen buddsoddi mewn datblygu a chynorthwyo'r gweithlu.

Er bod yn rhaid i ychydig o bobl symud i gartrefi gofal y tu allan i'w hardal leol oherwydd diffyg darpariaeth, mae comisiynwyr yn poeni am y tebygolrwydd y bydd mwy o gartrefi yn cau oherwydd ddiffyg gweithlu a chynaliadwyedd cartrefi sydd â sawl lle gwag. Mae hefyd yn glir bod rhai cartrefi yn darparu ar gyfer y rhai sy'n talu eu hunain a dim ond ychydig o leoedd sy'n cael eu cynnig yno i gomisiynwyr statudol.

Efallai y bydd angen ad-drefnu darpariaeth ar draws Gogledd Cymru; er enghraifft, mewn rhai ardaloedd mae diffyg darpariaeth gofal preswyl ac mewn ardaloedd eraill mae gormodedd - bydd angen datblygiad strategol cydgyssylltiol er mwyn sicrhau bod perchnogion cartrefi yn ymwybodol o'r galw a amcangyfrifir ar gyfer y dyfodol a rhaid i gomisiynwyr a pherchnogion weithio gyda'i gilydd i ddatblygu'r gweithlu i gwrdd yr anghenion a ragwelir (dementia a chyflyrau iechyd corfforol cymhleth).

Mae Cynghorau Ynys Môn a Gwynedd yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i archwilio sut gallai cartrefi gofal awdurdodau lleol weithio gyda staff iechyd cymunedol (nyrsys a therapyddion) i fodloni anghenion mwy cymhleth yn y tymor hir.

**Byddai comisiynwyr lleol yn gwerthfawrogi cyfleoedd i drafod anghenion ar gyfer datblygu gydag unrhyw bartion sydd â diddordeb; darperir manylion cyswllt er mwyn trafod gyda staff arweiniol mewn cynghorau a Bwrdd Iechyd ar gyfer pob sir.**

### Cysylltiadau Lleol

**Ynys Môn:** *Dafydd Bulman, Rheolwr Busnes:* [dafyddbulman@ynysmon.gov.uk](mailto:dafyddbulman@ynysmon.gov.uk)

**Gwynedd:** *Rhion Glyn, Rheolwr Busnes:* [rhionglyn@gwynedd.llyw.cymru](mailto:rhionglyn@gwynedd.llyw.cymru) & Erin Jones, Rheolwr Categori: [erinfonjones@gwynedd.gov.uk](mailto:erinfonjones@gwynedd.gov.uk)

**Conwy:** *Catrin Perry, Rheolwr Adain - Perthnasau Annibynnol a'r Trydydd Sector:* [catrin.perry@conwy.gov.uk](mailto:catrin.perry@conwy.gov.uk)

**Sir Ddinbych:** *Alan Roberts, Rheolwr Tîm – Rheoli Contractau:* [alan.roberts@denbighshire.gov.uk](mailto:alan.roberts@denbighshire.gov.uk)

**Sir y Fflint:** *Nicki Kenealy, Rheolwr Contractau:* [Nicki.j.Kenealy@flintshire.gov.uk](mailto:Nicki.j.Kenealy@flintshire.gov.uk)

**Wrexham:** *Helen Bainbridge, Pennaeth Gwasanaeth ar gyfer Pobl Hŷn:* [Helen.Bainbridge@wrexham.gov.uk](mailto:Helen.Bainbridge@wrexham.gov.uk); & Jo Ward, Rheolwr Tîm– comisiynu a chontractio: [jo.ward@wrexham.gov.uk](mailto:jo.ward@wrexham.gov.uk)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr:** *Will Williams, Pennaeth Comisiynu Anghenion Cymhleth* [Will.Williams@wales.nhs.uk](mailto:Will.Williams@wales.nhs.uk)

## Rhaglen Ddatblygu Arfaethedig

Bydd y Bartneriaeth Ranbarthol a / neu'r Byrddau Comisiynu yn cyhoeddi cynllun cyflawni er mwyn bod yn sail i'r datganiad siapio'r farchnad hwn.

---

### Gwybodaeth Ategol

#### **Strategaeth Gweithlu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cymunedol Gogledd Cymru 2018-2021**

Mae Bwrdd Gweithlu Gogledd Cymru'n adrodd i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ac yn darparu trosolwg ar amrywiaeth o feysydd gweithlu strategol.

Mae'r blaenoriaethau trosfwaol ar gyfer Bwrdd Gweithlu Gogledd Cymru yn cynnwys:  
Sefydlogi'r gweithlu.

Dysgu a Datblygu

Gwybodaeth a Chynllunio'r Gweithlu

Mae'r Strategaeth yn nodi'r ymrwymiad strategol ar y cyd ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol ac iechyd cymunedol a chafodd ei datblygu gyda sefydliadau ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Cafodd y Strategaeth ei chymeradwyo gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ym mis Chwefror 2018: <https://www.northwalescollaborative.wales/workforce/>

#### **Asesiad Poblogaeth**

Ym mis Ebrill 2017, cyhoeddodd chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr asesiad o anghenion gofal a chymorth poblogaeth Gogledd Cymru gyda chefnogaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan gynnwys anghenion cymorth gofalwyr er mwyn bodloni gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: <https://www.northwalescollaborative.wales/north-wales-population-assessment/>. Y bwriad oedd cael gwell dealltwriaeth o sut gallai'r boblogaeth newid dros y blynyddoedd nesaf er mwyn cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus gwell yng Ngogledd Cymru.

#### **Cynllun Rhanbarthol Asesiad o Boblogaeth (2018 – 2023)**

Ym mis Ebrill 2018, cyhoeddodd chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr y cynllun rhanbarthol gyda chefnogaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru:

<https://www.northwalescollaborative.wales/north-wales-population-assessment/regional-plan/>.

Mae'r cynllun hwn yn amlygu'r angen i ddarparu lleoedd o ansawdd mewn cartrefi nyrsio a chartrefi gofal a chomisiynu cartrefi gofal yn strategol.

---

**Am fwy o wybodaeth am ddadansoddiad y farchnad ac / neu ymrwymadau siapio'r farchnad, cysylltwch â:**

Maria Bell, Rheolwr Busnes Rhanbarthol (Comisiynu): [maria.bell@sir-ddinbych.gov.uk](mailto:maria.bell@sir-ddinbych.gov.uk)